# DRAFT MINUTES

| | |
|---|---|
| Meeting ID | 2387 |
| Committee | Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd |
| Date | 17/09/2021 |
| Attendees | Cynghorwyr John C. Morgan (Cadeirydd)<br>Cynghorwyr Bob Summers (Is-gadeirydd)<br>Cynghorwyr Joanne Collins (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Garth Collier (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Martin Cook (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Malcolm Cross (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Gareth A. Davies (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Gareth L. Davies (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Malcolm Day (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Keith Hayden (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Stewart Healy (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Hedley McCarthy (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Lee Parsons (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Keith Pritchard (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Tim Sharrem (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr John Hill (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Julie Holt (Guest)<br>Cynghorwyr Clive Meredith (Guest)<br>Cynghorwyr Amanda Moore (Guest)<br>Cynghorwyr Keri Rowson (Guest)<br>Cynghorwyr Stephen Thomas (Guest)<br>Cynghorwyr Haydn Trollope (Guest)<br>Cynghorwyr Dai Davies (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorydd John P. Morgan (Aelod Pwyllgor)<br>Bernadette Elias (Swyddog)<br>Richard Bridge (Swyddog)<br>Andrea Prosser (Swyddog)<br>Gemma Wasley (Swyddog)<br>Leeann Turner (Secretary)<br>Gwasanaethau Democrataidd (Monitor)<br>Pob Cynghorydd (Monitor) |

| | |
|---|---|
| Item ID | 5315 |
| Item Title | Cyfieithu ar y Pryd |
| Summary | Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. |

| | |
|---|---|
| Item ID | 5316 |
| Item Title | Ymddiheuriadau |
| Summary | Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb can y Cynghorwyr J. Collins, G.L. Davies, M. Day, S. Healy, L. Parsons, J. Holt, T. Sharrem a H. Trollope. |

| | |
|---|---|
| Item ID | 5317 |
| Item Title | Datganiadau Buddiant a Goddefebau |
| Summary | Datganodd y Rheolwr Gwasanaeth, Perfformiad a Democrataidd fuddiant yn eitem 5 – Dynodiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd. |

| | |
|---|---|
| Item ID | 5319 |
| Item Title | Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Gorffennaf 2021.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i gadarnhau'r cofnodion. |

| | |
|---|---|
| Item ID | 5335 |
| Item Title | Dynodiad Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd |
| Summary | Datganodd y Rheolwr Gwasanaeth, Perfformiad a Democrataidd fuddiant yn yr eitem hon ac aros yn y cyfarfod ond ni chymerodd unrhyw ran yn y cyfarfod.<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Gyfarwyddwr a gyflwynwyd i geisio cadarnhad am ddynodiad Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd statudol y Cyngor.<br><br>Siaradodd y Rheolwr Gyfarwyddwr am yr adroddiad a thynnodd sylw at y prif bwyntiau ynddo. Dywedodd fod swydd Pennaeth Llywodraethiant a Phartneriaethau yn wag ar hyn o bryd ac mae'r broses recriwtio yn mynd rhagddi. Gofynnodd i Aelodau ystyried a chytuno i ddynodiad y swydd statudol Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd barhau i gael ei halinio at Bennaeth Llywodraethiant a Phartneriaethau a chael ei cymryd gan y Swyddog newydd ar ôl penodi.<br><br>Fel y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd sy'n gadael y swydd, diolchodd y Prif Swyddog Masnachol a Chwsmeriaid i Aelodau am y cyfle a'u gwaith ar y cyd dros y blynyddoedd a dywedodd y bu'n fraint dal y swydd a gweithio gydag Aelodau yn y rôl honno.<br><br>Diolchodd y Cadeirydd i'r Pennaeth Gwasanaethau Ddemocrataidd sy'n gadael y swydd am ei holl waith ac er na fyddai'n gadael, byddid yn gweld ei cholli yn ei rôl bresennol. |

| | |
|---|---|
| | CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef cytuno ar ddynodiad swydd statudol Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd i Bennaeth Llywodraethiant a Phartneriaethau. |

| | |
|---|---|
| Item ID | 5334 |
| Item Title | Cynllun Gweithredu Cyngor Amrywiol |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Gwasanaeth Perfformiad a Democrataidd sy'n cyflwyno y drafft Gynllun Gweithredu Cyngor Amrywiol i'w ystyried.<br><br>Siaradodd y Rheolwr Gwasanaeth Perfformiad a Democrataidd am yr adroddiad a thynnu sylw at y prif bwyntiau ynddo sy'n cynnwys y cafodd y cynllun gweithredu ei ddatblygu ar gyfer y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar ôl ei gytuno yn y Cyngor ym mis Gorffennaf 2021 i ddod yn gyngor amrywiol gan y cafodd ei gydnabod yn genedlaethol fod diffyg amrywiaeth mewn cynghorau. Fel rhan o'r cytundeb hwnnw, cytunwyd i gynnal cynllun gweithredu.<br><br>Cyfeiriodd Aelod at bwynt 30 y Cynllun Gweithredu, y pwynt bwled olaf sy'n darllen – 'Cefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru a Phanel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol i ymchwilio grantiau neu sefydlu 'taliadau parasiwt' ar gyfer Aelodau sy'n colli eu seddi mewn etholiad'. Teimlai'r Aelod fod hyn yn ddiangen ac yn gosod baich annheg ar drethdalwyr. Esboniodd y Rheolwr Gwasanaeth Perfformiad a Democrataidd mai'r rheswm am hyn oedd y byddai Aelodau'r Senedd yn cael taliad parasiwt os oeddent yn aflwyddiannus mewn etholiad. Dywedwyd wrth y Panel a Llywodraeth Cymru y dylai Aelodau awdurdodau lleol gael yr un gydnabyddiaeth ariannol. Hysbysodd Aelodau fod hyn yn rhywbeth y gall Llywodraeth Cymru a'r Panel ei ymchwilio, nid yw yn nhrefniadau presennol y Panel ac os cyflwynir y grantiau adsefydlu yn genedlaethol yna byddem ni fel Cyngor yn edrych ar ei gefnogi.<br><br>Dywedodd Aelod y gallai cymryd amser i ffwrdd o'r gwaith i wneud y swydd fod yn un o'r rhwystrau i ddenu cynghorwyr mwy amrywiol a holodd am hawliau statudol yng nghyswllt hyn. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth Perfformiad a Democrataidd y dylai cynghorwyr gael amser gan eu cyflogwr i ymgymryd â'u rôl, fodd bynnag ni fedrir gorfodi hyn ac mae'n rhywbeth y mae Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn edrych arno wrth ystyried pa opsiynau y gellid eu rhoi ar waith i ddarparu ar gyfer Aelodau sy'n gweithio h.y. amrywio amserau cyfarfodydd, rhannu swyddi a chynlluniau gwyliau ac yn y blaen.<br><br>Dywedodd Aelod y teimlai y byddai angen gwneud mwy os yw'r Cyngor o ddifrif am amrywiaeth. Teimlai nad oedd gan Flaenau Gwent yr un problemau ag oedd gan ardaloedd eraill e.e. Caerdydd. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth Perfformiad a Democrataidd bod Llywodraeth Cymru |

eisiau i gynghorau ddod yn fwy amrywiol a chytunodd y byddai gwahaniaethau ac arlliw wahanol ymysg gwahanol awdurdodau lleol. Y Cynllun Gweithredu yw dull Blaenau Gwent sydd wedi ceisio dynodi meysydd allweddol sydd naill ai angen iddynt eu gweithredu'n uniongyrchol neu eu cefnogi fel Cynghorydd. Byddai dull ar y cyd gydag awdurdodau lleol a gallai'r Cyngor wedyn edrych ar yr hyn sydd ei angen yn benodol ym Mlaenau Gwent i ddynu set mwy amrywiol o Aelodau.

Cyfeiriodd Aelod at baragraff 2.5 yr adroddiad, y pwynt bwled cyntaf sy'n darllen 'annog pob plaid wleidyddol, drwy Grwpiau Gwleidyddol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, i ymrwymo i weithgareddau rhyngweithiol a chydlynol i wella amrywiaeth mewn democratiaeth leol' a theimlai y dylid aileirio hyn gan nad yw rhai Aelodau yn rhan o grŵp gwleidyddol.

Teimlai Aelod arall y gall y geiriad atal unigolion rhag sefyll ar gyfer etholiad gan y gallant gredu fod angen cefndir gwleidyddol.

Croesawodd y Cadeirydd yr adroddiad ac roedd yn falch fod Blaenau Gwent yn arwain y ffordd gyda'r Cynllun Gweithredu hwn ac awgrymodd y dylid diwygio'r geiriad ym mharagraff 2.5 i gynnwys pleidiau gwleidyddol / grwpiau anwleidyddol / unigolion.

Eglurodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd sy'n gadael y swydd y caiff y Cynllun Gweithredu ei ddatblygu gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ac yna mynd â nhw i'r Cyngor ar gyfer ei gymeradwyo ac y gallai unrhyw ddiwygiadau o'r drafodaeth gael eu cyflwyno yn yr adroddiad i'r Cyngor ar ddiwedd y mis. Yng nghyswllt grwpiau gwleidyddol, esboniodd fod peth o'r canllawiau'n ymwneud yn benodol â grwpiau gwleidyddol fel y gallent roi pethau neilltuol ar waith o fewn paramedrau bod yn grŵp gwleidyddol.

CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 2, sef bod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd wedi ystyried y Cynllun Gweithredu a roddir yn Atodiad 1, a rhoddodd sylwadau y dylid diwygio'r geiriad yn 2.5 yr adroddiad, pwynt bwled un - i annog pob plaid wleidyddol i gynnwys pleidiau gwleidyddol / grwpiau anwleidyddol / unigolion cyn ei gyflwyno i'r Cyngor ar 30 Medi i'w gymeradwyo.